Academi Ifanc y DU yn penodi 32 o aelodau newydd

Mae tri deg dau o arweinwyr datblygol ledled y DU wedi cael eu dethol i fod yn aelodau mwyaf newydd Academi Ifanc y DU, sef rhwydwaith ar gyfer ymchwilwyr ac arbenigwyr gyrfa gynnar a sefydlwyd i helpu mynd i'r afael â materion lleol a byd-eang a hyrwyddo newid go iawn.

O bolisi i beirianneg, addysg, archeoleg a'r diwydiannau creadigol, mae'r garfan newydd o aelodau yn dod o ystod eang o sectorau ac mae pob un wedi gwneud cyfraniad sylweddol yn eu maes.

Bydd Academi Ifanc y Du yn eu darparu gyda fforwm i gyfnewid syniadau, rhannu arbenigedd a chymryd rhan mewn trafodaethau lleol a byd-eang gyda'r nod o fynd i'r afael â heriau yn seiliedig ar feysydd sydd o bwys iddyn nhw.

Gan siarad ar ran grŵp gweithredol Academi Ifanc y DU, dywedodd Alistair McConnel, Athro Cynorthwyol mewn Cyfrifiadureg ym Mhrifysgol Heriot-Watt: "Rydyn ni wrth ein bodd yn croesawu ein haelodau newydd i Academi Ifanc y DU. Mae'n amser mor gyffrous i ymuno â'r tîm. Byddant yn gallu helpu i ddatblygu dyheadau'r academi ifanc ar draws meysydd maen nhw'n frwd amdanynt, boed hynny yn golli bioamrywiaeth, newid hinsawdd neu anghyfartaledd cymdeithasol.

"Rydym newydd ddechrau cynllunio ein prif brosiectau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, felly bydd digon gan yr aelodau newydd i'w wneud o'r cychwyn cyntaf. Rwy'n edrych ymlaen at gwrdd â nhw, i gael fy ysbrydoli gan eu syniadau amrywiol, a gweithio ochr yn ochr â nhw er mwyn creu newid cadarnhaol er lles pawb."

Mae rhaglenni gwaith a mentrau sy'n cael eu harwain gan aelodau eisoes ar waith, gyda'r nod o fynd i'r afael â blaenoriaethau strategol y mae'r academi ifanc wedi eu gosod allan ar gyfer ei flwyddyn gyntaf. Bydd y cyntaf o brosiectau mawr yr academi ifanc, fydd yn cael ei lansio yn ddiweddarach yn y flwyddyn, yn canolbwyntio ar raglen o gefnogaeth i ymchwilwyr a gweithwyr proffesiynol bregus, yn y DU a led-led y byd.

Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn dechrau eu rolau ar 19 Mawrth 2024, ac mae eu haelodaeth am dymor o bum mlynedd.